

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

## Rhagfyr 2018



### Noson Agored Bl.5 a 6

Ar y 23ain o Hydref croesawyd rhieni a disgyblion Bl.5 a 6 i'r Noson Agored. Cafodd y rhieni a'r disgyblion gyflwyniad gan y Pennaeth ac wedyn y cyfle i fynd o amgylch yr ysgol yn ymweld â'r gwahanol adrannau. Bu Macey Thomas, Cadi Mair Roberts a Mali Davies yn brysur yn gwerthu raffl i godi arian tuag at yr elusen Macmillan a llongyfarchiadau i deulu Louise Hughes o Ysgol Beddgelert a theulu Cadi Mair a Jac Arthur o Ysgol Eifionydd ar ennill. Anest o Ysgol Llanystumdwy a Sion o Ysgol Garndolbenmaen enillodd wobwr yn yr Adran Gymraeg am gwblhau'r helfa drysor.



**Bore Coffi Macmillan:** Cynhaliwyd bore coffi hynod lwyddiannus yn yr ysgol er mwyn codi arian ar gyfer elusen Macmillan. Bu nifer fawr o'r staff yn brysur yn pobi cacennau a danteithion o bob math ar gyfer yr achlysur. Rhwng y raffl a'r bore coffi llwyddwyd i godi £202.00 ar gyfer yr elusen teilwng hwn. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd.

**Gwobr Goffa Mary Vaughan Jones:** Cafwyd Seremoni i wobrwyo Gareth F. Williams ym Mhortmeirion yn ddiweddar. Roedd yr awdur yn derbyn gwobr Goffa Mary Vaughan Jones am lenyddiaeth i blant.

Gyda Bethan Gwanas yn arwain y noson roedd 6 o ddisgyblion o flwyddyn 9 Ysgol Eifionydd yn cymryd rhan. Bu Lewis Evans a Bedwyr Puw yn darllen rhan o O Ddawns i Ddawns. Holly Jones a Megan Thomas yn actio rhan o Adref Heb Elin a Macy Thomas, Cadi Roberts, Mali Davies ac Ariana Poljakovic yn darllen tamaid o Y Dyn Gwyrdd.

Roedd hi'n noson arbennig a theimladwy dros ben.

Diolch i'r Cyngor Llyfrau am eu caredigrwydd yn cyflwyno bocs o lyfrau gan yr Awdur i'r Ysgol a diolch i Nigel Hughes am y llun.



**Llongyfarchiadau** mawr i Miss Catrin Elan, athrawes Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol ar ei phriodas yn ddiweddar â Mr. Ben Roberts. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau hefyd i Miss Llio Dudley ar ei dyweddiad â Mr. Gwion Roberts.

### **Chill Factor – Manceinion**

Dydd Iau Tachwedd yr 8fed trefnodd yr Adran Addysg Gorfforol daith i 40 o ddisgyblion yr ysgol i Chill Factor, Manceinion. Pwrpas y daith oedd cael gwers sgïo o 2 awr ar gyfer y disgyblion, gyda'r bwriad bydd y wers a'r profiad yma yn paratoi y disgyblion at y daith sgïo i Risoul, Ffrainc hanner tymor Chwefror 2019. Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus gyda phob disgybl wedi ymddwyn yn ardderchog ac roedd pawb wedi mwynhau.





### Diwrnod Plant Mewn Angen – 16 Tachwedd, 2018

Yn unol â'r arfer cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau diwrnod yn gwisgo dillad o'u dewis hwy. Llwyddwyd i godi £278 tuag at yr elusen hynod boblogaidd yma.

**Ymgyrch Nadolig 2018.** Rydym fel ysgol yn ceisio casglu 1000 o eitemau ar gyfer y Banc Bwyd Lleol erbyn y Nadolig a byddem yn falch dros ben am unrhyw gyfraniad. Dyma Ioan Richards, Kelvin Humphreys ac Elin Roberts yn helpu Mrs. Miriam Amlyn ein hathrawes Addysg Grefyddol i gyfri'r nwyddau rydym wedi eu derbyn hyd yn hyn.



**Ymweliad gan ddisgyblion – Ysgol Gynradd Eifion Wyn, Treferthyr a Llanystumdwy:** Bore Gwener Tachwedd 30ain croesawyd nifer o ddisgyblion talentog yr ysgolion cynradd lleol i'r ysgol ar gyfer gwersi Meistr Cymraeg.

Treuliwyd dwy awr brysur yng nghwmni Mrs. Laura Hughes, Adran y Gymraeg yn creu cerdd ar sawl testun gan gynnwys Sach Sion Corn! Mwynhaodd pawb y profiad.



**CYNGERDD NADOLIG** – Croeso i bawb ddod i'r Cyngerdd Nadolig blynyddol yn Eglwys Sant Ioan nos Fawrth, 18 Rhagfyr 2018 am 6:30 y.h. Mae tocynnau ar gael yn yr ysgol.

**Cyngerdd Nadolig**  
**Ysgol Eifionydd**  
yn / at  
**Eglwys Sant Ioan**  
**St John's Church**  
Nos Fawrth, 18 Rhagfyr, 2018  
Tuesday evening, 18 December, 2018  
am 6.30 y.h. / at 6.30 p.m.  
**Tocynnau / Tickets :**  
**Oedolion / Adults: £3.00**  
**Plant / Children: £1.00**

Dyma enillwyr cystadleuaeth Bowldro Meirion Dwyfor 5x60 a fu yn ddiweddar - Freya foster, Carys Preedy, Elin Evens a Jack Sorsby, Connor Sorsby, Tomos Earley. Da iawn chi.



**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL.**